# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 7 Mawrth 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies,<br>Aelod Cabinet yr Economi a Chymuned |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679162 |
| **Teitl yr Eitem:** | Model Llywodraethu Rhanbarthol i wireddu'r Weledigaeth ar gyfer Twf Economaidd Gogledd Cymru |

### 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd gyda datblygiadau'r Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru a gefnogwyd gan y Cabinet ar 13 Medi 2016 ac mae'n amlinellu'r model llywodraethu rhanbarthol arfaethedig.

1.2 Yn dilyn sicrhau cymeradwyaeth y chwe chyngor yng ngogledd Cymru i'r Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yn hydref 2016, mae Gogledd Cymru wedi derbyn gwahoddiad ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth yn 'Gais Twf' ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a chyflwyno pwerau i'r rhanbarth gan Lywodraethau'r DU a Chymru.

1.3 Mae gwaith yn parhau i flaenoriaethu cynnwys y strategaeth i'w gynnwys mewn cais ffurfiol. Mae'r chwe chyngor wedi taro cytundeb amlinellol ar fodel llywodraethu ar gyfer y strategaeth economaidd ranbarthol. Mae'r model llywodraethu rhanbarthol a ffefrir, sef Cyd-bwyllgor statudol, wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Cefnogi'r model llywodraethu rhanbarthol a ffefrir, sef Cyd-bwyllgor statudol, i'w ddatblygu ymhellach.

2.2 Cyfarwyddo swyddogion i weithio gyda chydweithwyr mewn cynghorau partner i ddatblygu cyfansoddiad manwl a chytundeb rhwng-awdurdodau ar gyfer y Cyd-bwyllgor arfaethedig gan ei gyflwyno er mwyn rhoi ystyriaeth i'r Cyngor ymrwymo i fodel Cyd-bwyllgor statudol gyda'r pum cyngor partner, o fewn tri mis cyntaf tymor newydd y Cyngor.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau y bydd y model llywodraethu priodol yn ei le i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru.

## 4. DATBLYGU CAIS TWF

4.1 Cymeradwywyd y Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru gan y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru yn hydref 2016. Ail-atodir copi er gwybodaeth **(Atodiad 1)**. Mae'r weledigaeth yn amlinellu uchelgais glir ar gyfer Gogledd Cymru er mwyn datblygu isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Uchelgais y strategaeth yw cynyddu gwerth yr economi rhanbarthol o £12.8 biliwn i £20 biliwn erbyn 2035 gan greu 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd.

4.2 Mae amrywiol ranbarthau yn Lloegr, a Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a Dinas-ranbarth Bae Abertawe, wedi derbyn gwahoddiad gan Lywodraeth y DU i ddatblygu 'Cais Twf' er cymeradwyaeth. Derbyniodd Gogledd Cymru wahoddiad gan Lywodraeth y DU i ddatblygu cais ganol 2016. Ailddatganwyd yr ymrwymiad hwn gan y Llywodraeth i gefnogi cais rhanbarthol yn natganiad yr hydref y Canghellor ym mis Tachwedd 2016.

4.3 Mae Cais Twf yn gynnig ffurfiol am fuddsoddiad gan y Llywodraeth a chyflwyno pwerau datganoledig. Mae gofyn i ranbarthau sy'n gwneud cais gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol er mwyn cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Disgwylir i ranbarthau fod yn barod i fuddsoddi yn eu strategaethau eu hunain, law yn llaw â'r Llywodraeth(au), mewn clustnodiadau cyfalaf, rhannu mewn benthyca cyfalaf, defnyddio tir ac asedau ac wrth ddarparu adnoddau capasiti proffesiynol a chapasiti'r prosiect. Bydd pob cais wedi trafod amcanion a thargedau. Ar gyfer Gogledd Cymru, Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a Dinas-ranbarth Bae Abertawe, mae'r broses bidio yn cynnwys Llywodraethau'r DU a Chymru.

4.4 Ar gyfer Gogledd Cymru, mae'r Llywodraethau yn disgwyl gweld cynllunio strategol agos ar y cyd â Gogledd-Orllewin Lloegr a rhwydwaith Pwerdy'r Gogledd yn ehangach. Mae ein gweledigaeth a'n strategaeth yn adeiladu ar y cysylltiadau cryf a'r cynllunio ar y cyd o fewn y rhanbarth, drwy waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac ar draws ffiniau drwy Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a gwaith ar y cyd â Phartneriaeth Mentrau Lleol Swydd Caer a Warrington. Mae ceisiadau twf Gogledd Cymru a Swydd Caer a Warrington yn cael eu datblygu gyda'i gilydd ac mae'r naill yn dibynnu ar y llall er mwyn llwyddo. Yn ogystal, mae Gogledd Cymru yn gwneud cyfraniadau i strategaeth ehangach rhwydwaith Pwerdy'r Gogledd. Er enghraifft, enwebu prif safleoedd strategol ar gyfer twf busnes a mewnfuddsoddi. Mae isadeiledd ffyrdd a

rheilffyrdd a chysylltedd, ynghyd â chynllunio cludiant yn ehangach, gan gynnwys llwybrau bysiau, yn ganolog i'r strategaeth. Mae'r cynllun *Growth Track 360*, sy'n gwneud achos dros fuddsoddi mewn rheilffyrdd ar draws ffiniau, yn symud ymlaen drwy gamau gwneud achos a gwneud penderfyniad Llywodraethol.

4.5 Mae Gogledd Cymru yn rhanbarth unedig sydd â synnwyr cryf o hunaniaeth. Cefnogir y strategaeth gan arweinwyr a Phrif Weithredwyr y chwe awdurdod unedig yn y rhanbarth, Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo-Menai. Cefnogir y strategaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hefyd, sydd ag aelodaeth eang yn cynrychioli'r sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg a'r trydydd sector. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn parhau'n rhwydwaith rhanddeiliad pwysig.

4.6 Disgwylir i lywodraeth leol arwain ar gynllunio a gweithredu'r strategaeth ac mae rôl ganolog llywodraeth leol yng Nghymru ym maes cynllunio rhanbarthol wedi'i hatgyfnerthu gan ddatganiadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Llywodraeth Leol a Chyllid ac yn ddiweddar yn y papur gwyn ar gyfer diwygio llywodraeth leol.

4.7 Law yn llaw â'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, mae angen model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol ar gyfer y camau hanfodol a ganlyn (1) datblygu Cais Twf ffurfiol o'r strategaeth (2) cytuno ar gynllun buddsoddi a (3) gosod a goruchwylio cynllun gweithredu.

## 5. Y MODEL LLYWODRAETHU A FFEFRIR

5.1 Mae ambell fodel llywodraethu ar gael i'r chwe chyngor partner. Er efallai y gallai model awdurdod ar y cyd, sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd yn Lloegr, fod yn bosib yn y dyfodol, nid oes capasiti deddfwriaethol ar gyfer model o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd. Cyd-bwyllgor statudol yw'r model llywodraethu a ffefrir ac a argymhellir gan arweinwyr a phrif weithredwyr y cynghorau partner ac a gefnogir yn anffurfiol gan weision sifil o Lywodraeth Cymru, Swyddfa Cymru ac adrannau Llywodraeth y DU.

5.2 Mae'r model Cyd-bwyllgor statudol yn fodel cyfarwydd a dibynadwy. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i'r model hwn. Er mwyn cefnogi'r Cyd-bwyllgor, bydd gofyn penodi awdurdod lletya i ddarparu cefnogaeth gyfreithiol, ysgrifenyddol a gweinyddol, ynghyd â rolau swyddogion statudol yr awdurdod lletya (swyddog monitro ac a.151), cefnogaeth ariannol yn cynnwys datganiad llawn o gyfrifon ac ati, y bydd angen eu hariannu. Bydd angen enwebu un awdurdod lletya, ond gellir enwebu awdurdodau eraill ble gall swyddogion proffesiynol reoli'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn gweithrediad y strategaeth. Mae Cyd-bwyllgorau'n fodel cyfarwydd yn y rhanbarth gydag enghreifftiau diweddar yn cynnwys Consortiwm Gwella Ysgolion GwE a Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Un enghraifft berthnasol o'r gorffennol yw Taith, fel y cyn-gonsortiwm a Chyd-bwyllgor trafnidiaeth.

5.3 Amlinellir crynodeb o gylch gorchwyl arfaethedig yn **Atodiad 2**. Bydd angen cyfansoddiad ar y Cyd-bwyllgor, a fydd yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer ei swyddogaethau, ac fe'i danategir gan Gytundeb Rhwng-Awdurdodau (IAA). Cytundeb ar y cyd yw IAA sy'n nodi sut bydd y Cyd-bwyllgor yn cael ei lywodraethu, cyfyngiadau gwneud penderfyniadau a'r materion sydd wedi'u cadw ar gyfer cymeradwyaeth cynghorau unigol, rolau'r awdurdodau lletya, sut

bydd cyfraniadau ariannol i'r Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau lletya yn cael eu dyrannu, a sut bydd risgiau a buddion yn cael eu rhannu.

5.4 Argymhellir mai arweinwyr y chwe chyngor ddylai ffurfio aelodaeth y Cyd-bwyllgor. Byddai gan bob arweinydd ddirprwy wedi'i enwebu. Cynghorir y pwyllgor gan arweinwyr proffesiynol a'r prif weithredwyr. Mae opsiwn i gyfethol cynrychiolwyr o sefydliadau partner allweddol yn cynnwys Cyngor Busnes Gogledd Cymru, addysg uwch ac addysg bellach. Bydd perthnasau gweithio agos gyda Phartneriaeth Mentrau Lleol Swydd Caer a Warrington yn bwysig a chynigir ffurf ar grŵp cydlynol ar y cyd a thraws-ffiniol, heb bwerau gwneud penderfyniadau.

5.5 Bydd cyfansoddiad manwl a Chytundeb Rhwng-Awdurdodau yn cael eu datblygu yn barod ar gyfer tymor newydd y cyngor. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys y Prif Weithredwyr a'r arweinwyr proffesiynol perthnasol ar gyfer datblygu'r economi, y Swyddogion Monitro a'r Rheolwyr Cyllid/Swyddogion Adran 151.

## 6. Y CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Yn ystod y cyfnod cyn yr etholiadau lleol, bydd gwaith yn cael ei gwblhau ar gyfansoddiad drafft a Chytundeb Rhwng-Awdurdodau.

6.2 Mae gwaith yn parhau gyda gweision sifil i baratoi Cais Twf ffurfiol gan ddisgwyl y bydd trafodaethau ffurfiol ynghylch y cynnig yn dechrau ym mis Gorffennaf unwaith y bydd y Cyd-bwyllgor wedi'i sefydlu.

## 7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A WNAED CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 7.1. Barn y Swyddogion Statudol:

#### i. Y Prif Weithredwr:

"Yn amlwg, mae cryn dipyn o waith wedi bod yn datblygu'r Weledigaeth a'r Trefniadau Llywodraethu o gwmpas hynny. Yn amlwg, beth sydd yn bwysig yw bod gan y Cyngor hwn lais cryf yn y trefniadau hynny i ddiogelu buddiannau'r ardal."

#### ii. Y Swyddog Monitro:

"Fe nodir yn yr adroddiad y bu i'r Cabinet gymeradwyo cychwyn ar y trywydd yma ym Medi 2016. Mae'r model Cyd Bwyllgor a argymhellir ar gyfer symud ymlaen yn ymddangos yn briodol ac yn adlewyrchu y math o drefn llwyodraethu sydd wedi ei fabwysiadu neu argymell ar gyfer prosiectau cyffelyb yng Nghymru. Mae cydnabyddiaeth briodol y bydd angen adroddiad pellach i'r Cabinet pan fydd y gwaith manwl o ffurfio cyfundrefn bartneriaethu angen ei fabwysiadu'n ffurfiol."

#### iii. Y Pennaeth Cyllid:

"Bydd canlyniadau sylweddol i ranbarth gogledd Cymru yn sgil datblygu 'Cais Twf' gyda nifer o risgiau a chyfleoedd cysylltiedig i Wynedd. Yn ogystal, bydd y model arfaethedig yn rheoli rhaglenni dylanwadol a nifer o brosiectau mawr, o bosib. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod y drefn lywodraethol yn cael ei

sefydlu'n briodol ac rwy'n cefnogi sefydlu Cyd-bwyllgor statudol fel y cynigir yn yr adroddiad.
Fel y nodir ym mharagraff 5.2, bydd gofyn i awdurdod lletya ddarparu cefnogaeth ariannol i'r Cyd-bwyllgor, ynghyd â chefnogaeth gyfreithiol a gweinyddol a chefnogaeth i swyddogion statudol a bydd angen ariannu'r rhain yn ddigonol. Rwy'n cefnogi sefydlu un awdurdod lletya, ond mae'n bosib y caiff awdurdodau eraill eu henwebu i reoli agweddau eraill, yn arbennig rhaglenni a phrosiectau penodol o fewn gweithrediad y strategaeth."

**7.2. Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

**7.3. Canlyniadau Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** **Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru**

**Atodiad 2** **Cylch Gorchwyl Amlinellol**